**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol
a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Mehefin 2019

Annwyl John

**Papur Trafod Archwilydd Cyffredinol Cymru Chwe thema er mwyn helpu i wneud craffu yn 'Barod at y Dyfodol'**

Yng nghyd-destun y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) disgwyliedig, roeddwn yn tybio y byddai gennych ddiddordeb, o bosibl, yn y ddogfen a'r ohebiaeth a ganlyn.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru bapur trafod a rhestr wirio chwe phwynt ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Nod y papur yw gwella eu swyddogaethau goruchwylio a chraffu. Mae'r papur yn dwyn ynghyd rai o'r themâu a'r materion cyffredin a nodwyd yn ystod y gwaith archwilio a wnaed ar draws y 22 awdurdod lleol yn ystod 2017-18.

Ysgrifennais at Lywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ar y papur, a gafodd ei drafod gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 3 Mehefin. Cytunodd yr Aelodau y byddem yn cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru yn nhymor yr hydref er mwyn mynd trafod eu sylwadau, yn ogystal â thrafod yr Adroddiad Cam 1 y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu ei gyhoeddi yn yr hydref ar yr adolygiad sy'n cael ei gynnal ar gyrff sy'n cyflawni gwasanaethau cyhoeddus.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565